| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **29 Mehefin 2023** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Y Cyng. Barry Mellor (Aelod Arweiniol Priffyrdd a'r Amgylchedd) / Tony Ward (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Andy Clark** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Simon Lammond, Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu / Lowri Roberts, Rheolwr Prosiect** |
| **Teitl** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Brosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i'r aelodau graffu ar y Polisi Casgliadau Gwastraff diwygiedig. Mae'r adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugnol a'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i aelwydydd ansafonol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Pwrpas yr adroddiad yw hysbysu'r aelodau ynghylch cynnwys y Polisi Casgliadau Gwastraff newydd, y cynnydd hyd yma a'r gweithgareddau sydd ar y gweill er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugnol newydd ac i dderbyn eu barn ynghylch hynny.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn trafod cynnwys yr adroddiad a'r Polisi Casgliadau Gwastraff diwygiedig (Atodiad 1) yn ogystal â'r deunyddiau cyhoeddusrwydd ar gyfer y gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugnol (Atodiad 2), ac yn mynegi eu barn arnynt.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les diweddar (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Polisi Casgliadau Gwastraff

4.1. Mae Atodiad 1 yn darparu manylion y Polisi Casgliadau Gwastraff presennol (Rhan 1) a'r Polisi Casgliadau Gwastraff newydd (Rhan 2).

4.2. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys cryfhau cyfrifoldebau / egluro'r polisi a'r newidiadau i'r gwasanaeth:

a) Mae adrannau 1a ac 1b yn manylu ar amlder y gwasanaeth casglu sbwriel ac ailgylchu a'r math o gynwysyddion a ddefnyddir. Mae adran 2 yn ymwneud â chasgliadau amgen ar gyfer eiddo sy'n anaddas ar gyfer y gwasanaeth safonol. Mae adran 3 yn ymwneud â biniau cymunedol swmpus.

b) Mae adran 4 yn egluro'r gofyniad cyfreithiol yng Nghymru i ailgylchu gwastraff bwyd (o fis Hydref 2023 ymlaen). Mae adran 5 yn ymwneud â'r gwasanaeth casglu cyfarpar electronig a thrydanol a'r gwasanaeth casglu batris.

c) Mae adran 7 'cyflwyno' ac adran 8 'ffyrdd preifat heb eu mabwysiadu' wedi'u hatgyfnerthu yn nhermau beth sy'n dderbyniol a'r hysbysiad ffurfiol o fannau casglu ar gyfer eiddo gyda mynediad wedi'i gyfyngu. Mae adran 15 yn cyfeirio at ddefnyddio biniau gyda microsglodion.

d) Mae adran 18 yn egluro'r gwasanaeth Gwastraff Hylendid nad yw'n Heintus o 2024 ymlaen.

e) Mae adran 22 yn amlinellu'r newidiadau i'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus.

## Cyflwyno'r Gwasanaeth Cynnyrch Hylendid Amsugnol

4.3. O hydref 2023 bydd y gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugnol newydd yn cael ei gyflwyno i ardal beilot (ardaloedd cod post LL16 / LL17). Mae'r ardal hon yn cynnwys Llanelwy, Dinbych, Bodfari, Llandyrnog, Llanrhaeadr, Henllan, Nantglyn, y Grîn, Trefnant, Allt Goch, Rhuallt a Thremeirchion.

4.4. Bydd yr ardal hon yn denu oddeutu 1,000 o danysgrifwyr, gan ddarparu cymysgedd o ardaloedd gwledig a threfol ar gyfer cwmpas y prosiect peilot yn barod at gyflwyno'r gwasanaeth i'r sir gyfan yn 2024. Gall trigolion nad ydynt yn byw yn ardaloedd LL16 / LL17 barhau i roi eu cynnyrch hylendid amsugnol yn eu biniau sbwriel du neu eu sachau pinc. Nid oes modd i drigolion sy'n byw mewn fflat gyda chasgliadau gwastraff cymunedol wneud cais am y gwasanaeth hwn eto, ond bydd modd iddynt wneud hynny fis Mawrth 2024.

4.5. Gall trigolion cymwys gofrestru ar gyfer y prosiect peilot ar wefan CSDd ar 3 Gorffennaf 2023. Mae'r meini prawf yn cynnwys aelwydydd gyda babanod neu blant mewn clytiau, ac oedolion sy'n defnyddio cynnyrch anymataliaeth. Ar ôl cofrestru bydd y trigolion yn derbyn cadi neu fin 140 litr (yn dibynnu ar yr angen) yn ogystal â leiners. Bydd y cadi/bin cynnyrch hylendid amsugnol yn cael eu gwagio bob wythnos. Mae Atodiad 2 yn cynnwys yr holl amodau a thelerau yn ogystal â chwestiynau cyffredin.

4.6. Bydd swyddogion gorfodi yn gwasanaethu'r ardal hon fel rhan o'r prosiect peilot i gynghori trigolion ac i fonitro'r gostyngiad yn y cynnyrch hylendid amsugnol yn y ffrwd gwastraff gweddilliol. Mae'r dull hwn yn caniatáu i ni fonitro pethau yn well ac mae cyflwyno'r gwasanaeth i ardal benodol yn gyntaf yn ffordd fwy effeithlon ac yn darparu cysylltiadau cludiant hygyrch i Barc Adfer a fydd yn prosesu'r gwastraff tan y bydd y gwasanaeth newydd yn cael ei lansio.

## Aelwydydd Gwasanaethau Ansafonol

4.7. Mae gan Sir Ddinbych nifer o aelwydydd sy'n derbyn 'gwasanaeth ansafonol' h.y. naill ai gwasanaeth cymunedol neu sachau. Mae hyn yn aml iawn oherwydd problemau mynediad neu ddiffyg lle i storio cynwysyddion. Mae'r aelwydydd ansafonol hyn yn destun adolygiad ar hyn o bryd.

4.8. Mae arolwg wedi dechrau i weld pa ddatrysiadau y mae modd eu darparu ar gyfer eiddo ansafonol dan y gwasanaeth newydd. Mae yna 128 o safleoedd gydag eiddo cymunedol –105 o'r rhain yng ngogledd y sir a 23 yn ne'r sir. O'r 124 safle sydd wedi'u hasesu hyd yma, gall 81 ohonynt symud i'r gwasanaeth safonol newydd a derbyn trolibocs ar gyfer eu deunyddiau ailgylchu.

4.9. O'r 41 safle sy'n weddill, bydd dau ddewis yn cael ei ystyried:

I. Biniau olwyn 240 litr ychwanegol (x4) yn lle’r cynhwysydd deunyddiau cymysg 1110 litr ar gyfer didoli’r deunyddiau gwastraff (gwydr, papur, plastig ac ati); neu

II. Bin cymunedol mawr gydag adrannau gwahanol ar gyfer y deunyddiau gwahanol.

4.10. Mae yna 2,483 aelwyd yn derbyn gwasanaeth casglu sachau – 2,271 o’r rhain yn ne’r sir a 212 yn y gogledd. Oherwydd nifer y safleoedd sy’n defnyddio’r gwasanaethau sachau, mae’r asesiadau manwl yn dal yn mynd rhagddynt. Ble bynnag y bo’n bosibl, bydd eiddo yn symud i’r gwasanaeth trolibocs safonol ond bydd dewisiadau eraill yn cael ei hystyried pan na fydd hynny’n bosibl.

4.11. Dylai eiddo ar rodfeydd/lonydd preifat neu ffyrdd heb eu mabwysiadu sy’n defnyddio sachau gael eu rhoi ar gasgliadau pen ffordd a, ble bynnag y bo’n bosib’, dylid darparu trolibocs iddynt. Mae’n bosib’ y bydd y mynediad yn dal yn broblem hyd yn oed ar ôl i’r casgliadau pen ffordd gael eu cyflwyno, ond byddai hyn yn hwyluso pethau ac yn lleihau teithio diangen a’r perygl o ddifrodi cerbydau neu eiddo.

4.12. Dylai aelwydydd sy’n defnyddio sachau ac sydd â phroblemau storio naill ai dderbyn sachau dympi y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer eu gwastraff gweddilliol a sachau llai ar gyfer y deunyddiau ailgylchu gwahanol, neu flychau ailgylchu heb y troli a sach fawr ar gyfer gwastraff gweddilliol. Dan amgylchiadau o’r fath, bydd yn rhaid i eiddo gael eu hasesu’n unigol a bydd yn rhaid addasu pethau er mwyn bodloni gofynion y casgliad.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

5.1. Y prif sbardun ar gyfer y newid yma yw gwella ein perfformiad o ran ailgylchu er mwyn cyrraedd y targed statudol o 70% a roddwyd i bob awdurdod lleol ar gyfer 2024/25. Bydd hefyd yn cynyddu ansawdd y deunydd i’w ailgylchu a gesglir o aelwydydd, gan fod yn fodd i allu cynhyrchu incwm o werthu deunyddiau, a chynyddu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu dolen gaeedig.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cwmpesir costau gweithredu'r newidiadau newydd i'r gwasanaeth o ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer paratoi a chynwysyddion o fewn cyllideb gyffredinol y prosiect.

6.2. Bydd gweithredu'n gwasanaeth newydd yn effeithio ar amryw o wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys Gwasanaethau i Gwsmeriaid a'r Tîm Cyfathrebu, ac mae cynrychiolwyr o'r meysydd gwasanaeth hyn wedi eu cynnwys yn y timau prosiect perthnasol ar gyfer ffrydiau gwaith paratoi.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o Effaith ar Les yn gadarnhaol – gweler Atodiad 3 i gael rhagor o fanylion.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd yr egwyddor o weithredu model gwastraff newydd, sy'n dilyn glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gwastraff, ei gymeradwyo'n wreiddiol gan y Grŵp Buddsoddi Strategol a'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2018. Cyflwynwyd Achos Busnes wedi ei ddiweddaru hefyd i'r Cabinet ym mis Ebrill 2022, a'i gymeradwyo.

8.2. Ym mis Rhagfyr 2021 darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, ac yr oedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys Polisi Casgliadau Gwastraff wedi ei ddiweddaru.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn, mae'r achos busnes dros fuddsoddiad cyfalaf mawr ym maes gwastraff dros y blynyddoedd diwethaf wedi ei seilio ar oblygiadau'r model a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn o ran refeniw.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Y mae dwy risg allweddol yn ymwneud â gweithredu'r model gwasanaeth newydd erbyn mis Mawrth 2024. Y rhain yw:

- **Cymeradwyo Trwydded:** Mae gweithrediadau yn y depo newydd yn amodol ar gymeradwyo trwydded bwrpasol, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2023 i Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n rhaid cymeradwyo'r drwydded hon cyn gallu newid y gwasanaeth. Gall y broses hon gymryd tua 12 mis, ond yr ydym yn ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ar lefel weithredol a strategol ynglŷn â'r mater hwn.

- **Parodrwydd y Depo:** Mae'r depo i fod i gael ei gwblhau yn hydref 2023. Ar hyn o bryd disgwylir y bydd hyn yn digwydd ar amser, felly dylai bod y depo'n barod ar gyfer gosod y cynwysyddion at ei gilydd a'u danfon yn barod ar gyfer y gwaith o gyflwyno i breswylwyr o fis Tachwedd 2023. Fodd bynnag, cynyddodd y risg ar ôl i brif gontractwr Cam 2 fynd i ddwylo'r gweinyddwyr fis Chwefror 2023. Mae'r Tîm a'r Bwrdd Prosiect yn rheoli'r sefyllfa hon.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor